**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Chwefror 2022

Annwyl Jayne

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Pan oeddwn yn bresennol yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Tachwedd, cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am y dull rwy'n bwriadu ei ddilyn i weithredu ac arfer y pwerau dirprwyedig cysylltiedig ym Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi syniad i chi o'r meysydd lle'r wyf yn ystyried gwelliannau posibl yn seiliedig ar yr adborth a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid i'r Pwyllgor ac yn uniongyrchol i mi a'm swyddogion, yn ogystal â sylwadau a materion ehangach a godwyd gan y Pwyllgor.

**Gwelliannau**

Yn amodol ar argymhellion pob un o bwyllgorau'r Senedd sy'n craffu ar y Bil, rwy'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd
- Sicrhau bod ymchwil ac arloesi a'r Gymraeg yn cael amlygrwydd priodol ar draws y Bil
- Cymhwyso'r amodau cofrestru parhaus gorfodol ar gyfle cyfartal i bob darparwr cofrestredig
- Pwysleisio pwysigrwydd llais y dysgwr
- Ansawdd addysg drydyddol
- Cynyddu tryloywder mewn perthynas â phenderfyniadau cyllido'r Comisiwn
- Sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol bwerau cyllido
- Caniatâd i drosglwyddo cyllid i gyrff sy'n cydlafurio
- Diddymiad CAB
- Ymestyn y darpariaethau mewn perthynas â chydnawsedd â chyfraith elusennau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gweithredu**

Fel yr wyf wedi’i ddweud wrth y Pwyllgor, rwy’n bwriadu sefydlu'r Comisiwn yn ystod 2023 a mabwysiadu dull graddol o weithredu'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil, ar ôl ei sefydlu yn 2023 ac yn 2024 a 2025. I gefnogi'r dull hwn, a sicrhau parhad y ddarpariaeth a thosglwyddo llyfn, mae’r broses o gau CCAUC wedi'i aildrefnu tan ddechrau 2024 (fan bellaf).

Un egwyddor allweddol sy'n sail i weithredu'r Bil, a sefydlu'r Comisiwn, yw gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol lle bynnag y bo'n briodol i alluogi cyd-gynhyrchu polisi, is-ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gweithredu hwnnw. Mae'r ymgysylltu a'r ymgynghori cynhwysfawr hwn eisoes wedi dechrau drwy'r Bwrdd Strategaeth a Gweithredu yr wyf yn ei gadeirio a hefyd drwy ymgysylltu rhwng fy swyddogion a CCAUC a rhanddeiliaid allweddol eraill.

I sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael digon o gyfleoedd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau angenrheidiol, a bod y rheoliadau hynny'n adlewyrchu unrhyw fireinio i'r Bil ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor, nid wyf yn rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i rannu rheoliadau drafft â'r Pwyllgor wrth i’r Bil fynd drwy’r broses graffu.

<u>Staffio</u>

Mae penodi’r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn gam hollbwysig wrth sefydlu'r Comisiwn. Mae cael yr arweinyddiaeth hon yn ei lle yn hanfodol i lywio datblygiad y Comisiwn ac ymgorffori ei swyddogaethau o'r dechrau.

Fy mwriad, os yw’r Senedd yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil, yw dechrau'r broses recriwtio yn ystod camau olaf y gwaith craffu er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau'r broses recriwtio a phenodi. O ganiatáu amser ar gyfer y prosesau dan sylw a'r cyfnod rhybudd a ddisgwylir ar gyfer unigolyn ar lefel Prif Swyddog Gweithredol, rwy'n rhagweld y bydd y broses o recriwtio'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol wedi’i chwblhau ar ddechrau 2023.

Cyn penodi'r Prif Swyddog Gweithredol, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r strwythur sefydliadol drafft yn ddiweddarach eleni. Unwaith y bydd wedi’i benodi, bydd gan y Prif Swyddog Gweithredol rôl allweddol o ran adolygu, diwygio a chytuno ar y strwythur hwnnw, cyn bod proses baru’n cael ei chynnal lle bydd yr holl staff yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses o nodi pa swyddi yn y strwythur newydd sy’n cyfateb orau i’w rôl bresennol. Drwy gydol y broses hon, bydd ymgysylltu parhaus â staff yn Llywodraeth Cymru a CCAUC er mwyn sicrhau bod y trefniadau’n glir a bod staff yn gallu gweld lle mae'r cyfleoedd ar eu cyfer yn y sefydliad newydd.

<u>Dysgu gydol oes</u>

Gan droi at ddarpariaethau'r Bil, mae adran 91 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i bersonau cymwys. Mae'r ddyletswydd hon yn ganolog i un o'm mhrif flaenoriaethau i sicrhau bod Cymru'n genedl ail gyfle. Mae’n hanfodol i sgiliau a hyfforddiant gydol oes ddod yn norm a'n bod yn rhoi cyfle i bob dinesydd elwa arnynt, ac rwy'n ystyried bod y ddyletswydd hon yn allweddol wrth helpu i gyflawni hyn. Elfen sylfaenol o’r ddyletswydd i gyllido addysg bellach i oedolion yw'r gallu yn y tymor hwy i ehangu'r ddarpariaeth, yn dibynnu ar anghenion economaidd a chymdeithasol sy'n dod i'r amlwg.

I weithredu'r ddyletswydd hon mae’n rhaid gwneud rheoliadau i ddiffinio addysg a hyfforddiant perthnasol ac rwyf hefyd yn bwriadu gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer pennu person cymwys.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r polisi sy'n sail i'r rheoliadau hyn yn parhau, ac yn cael ei lywio gan adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sef *'Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru*'. Cynhaliwyd trafodaeth adeiladol a llawn gwybodaeth mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Strategaeth a Gweithredu a bydd yr ymgysylltu cychwynnol hwn yn parhau i alluogi'r rheoliadau i gael eu cyd-lunio a'u llywio gan arbenigedd y sector. Wrth i'r rheoliadau hyn gael eu datblygu byddant yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn ystod 2023 a'm bwriad yw cyflawni'r ymrwymiad hwn ar gyfer mwy o ddarpariaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2024/2025.

System reoleiddio

Mae Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil yn darparu ar gyfer system newydd o gofrestru darparwyr addysg drydyddol, a bydd angen gwneud pecyn o is-ddeddfwriaeth i weithredu’r system hon. Mae'r amserlen ar gyfer gweithredu'r darpariaethau hyn yn cael ei llywio gan y gwersi a ddysgwyd o weithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a’r angen i sicrhau bod y diwygiadau a gyflwynir gan y Bil yn cael eu cyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Fy nod yw y bydd y trefniadau rheoleiddio newydd a nodir yn y Bil yn eu lle ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.

I sefydlu'r system reoleiddio newydd, mae angen gwneud nifer o reoliadau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r rhai a restrir isod (mae rhifau adran yn cyfeirio at y Bil wrth ei gyflwyno).

| Adran | Disgrifiad |
|---|---|
| 23(2) | pennu’r categorïau cofrestru y mae'n rhaid gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr |
| 23(5) | gwahardd cofrestru darparwr mewn un categori o'r gofrestr ar yr un pryd ag y'i cofrestrir yn un neu fwy o'r categorïau eraill |
| 25(3) | pennu amodau cofrestru cychwynnol pellach |
| 30(2)(b) | pennu’r categori cofrestru y mae amod terfyn ffioedd yn gymwys iddo |
| 44(6) | pennu'r uchafswm na chaiff y terfyn ffioedd a bennir mewn datganiad terfyn ffioedd fod yn fwy nag ef |
| 52(5) | pennu'r cyfnodau ar gyfer cynnal asesiadau addysg uwch a chyhoeddi adroddiadau |
| 77(3) | dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o benderfyniadau, er enghraifft manylion ynghylch rôl yr adolygydd penderfyniadau a'r weithdrefn sydd i'w dilyn |
| 85(3) | pennu’r categorïau o ddarparwyr cofrestredig y caiff y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant a ysgwyddir at ddibenion darparu addysg uwch a chyfleusterau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu addysg uwch. |
| 102(4) | pennu’r categorïau cofrestru y mae'n rhaid i ddarparwr fod wedi'u cofrestru ynddynt cyn y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol i'r darparwr mewn perthynas â gwariant at ddibenion (neu mewn cysylltiad ag) ymchwil neu arloesi. |

Mae'r bwriad polisi cychwynnol mewn perthynas â'r rheoliadau hyn wedi'i nodi yn y datganiad o fwriad polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Bil wrth ei gyflwyno. Bydd y bwriad hwn yn cael ei fireinio a'i ddatblygu ymhellach ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Bydd datblygu ac ymgynghori ar y polisi sylfaenol a drafftio'r rheoliadau hyn wedyn yn cael blaenoriaeth wrth i'r gwaith o graffu ar y Bil ddod i ben.

Yn ogystal â gwneud y rheoliadau uchod, bydd hefyd angen adlewyrchu'r trefniadau newydd yn y ddeddfwriaeth bresennol, megis y rheoliadau sy'n ymdrin â chymhwystra i gael cymorth i fyfyrwyr, a'r bwriad yw mynd i'r afael â hyn fel rhan o ddiweddariad blynyddol rheolaidd y rheoliadau hynny.

Mae'r broses o nodi'r rhyngddibyniaethau rhwng y rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth arall hefyd yn cael ei chynnal a threfniadau’n cael eu gwneud i ymdrin â’r newidiadau angenrheidiol. Bydd yr holl faterion hyn yn cael eu hadlewyrchu wrth i'r amserlen weithredu gael ei mireinio a'i chwblhau.

Mae sefydlu'r system reoleiddio newydd yn cynnwys cyfres o gamau i'w cwblhau gan y Comisiwn, gan gynnwys datblygu a chyhoeddi'r gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni, er mwyn iddo fod yn fodlon ar yr amodau cofrestru cychwynnol (a.25(2)). Yn ogystal, mae angen datblygu ac ymgynghori ar yr amodau cofrestru parhaus cyffredinol (a.26(1)) a’u cyhoeddi, a pharatoi canllawiau ar gyfer darparwyr cofrestredig ar yr amodau cofrestru parhaus hynny (a.33). Mae'r rhain yn weithgareddau yr wyf yn rhagweld y bydd y Comisiwn yn bwrw ymlaen â nhw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei sefydlu.

<u>Y fframwaith ansawdd a’r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr</u>

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau eraill y bydd gan y Comisiwn rôl ganolog mewn perthynas â hwy wrth ddatblygu'r elfennau craidd sy'n angenrheidiol i gefnogi’r broses weithredu. Mae'r rhain yn cynnwys y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'r fframwaith ansawdd. Fy mwriad yw bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni gan y Comisiwn yn fuan ar ôl ei sefydlu. Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau statudol i gefnogi'r Comisiwn wrth weithredu'r darpariaethau hyn. Bwriedir dechrau cyhoeddi'r canllawiau drafft, sy'n cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, ar gyfer ymgynghori tua diwedd y flwyddyn galendr hon neu ar ddechrau 2023.

<u>Prentisiaethau</u>

Gan droi at brentisiaethau a threfniadau penodol newydd Cymru y darperir ar eu cyfer yn y Bil, bydd gofyn dwyn ynghyd y trefniadau presennol a reolir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau safonol ac uwch a CCAUC mewn perthynas â gradd-brentisiaethau.

O ran trefniadau Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd proses gaffael yn ddiweddar ar gyfer darparu prentisiaethau ar lefelau 2 i 5, gyda'r contract hwn yn dechrau ar 1 Awst 2021 ac yn rhedeg am bedair blynedd (gydag opsiwn i’w ymestyn am ddwy flynedd arall).

Bydd rhaglen waith yn dechrau'n fuan i ddatblygu cynllun ar gyfer gweithredu'r darpariaethau hyn.

Darpariaethau trosiannol

Fel y bydd y Pwyllgor yn gallu gweld o'r manylion uchod, bydd gweithredu rhai darpariaethau yn ymestyn y tu hwnt i gau CCAUC, ac felly bydd y gwaith gweithredu yn cynnwys nodi a datblygu'r darpariaethau trosiannol angenrheidiol er mwyn gallu parhau â'r swyddogaethau presennol perthnasol, rhwng cau CCAUC a'r pwynt lle y gweithredir yr holl ddarpariaethau'n llawn.

Er bod yr ymateb hwn wedi canolbwyntio ar y dull arfaethedig o ymdrin â'r cynllun gweithredu deddfwriaethol, mae corff sylweddol o waith hefyd ar y gweill i ddatblygu a gweithredu'r trefniadau angenrheidiol mewn perthynas â systemau a phrosesau cyllid, corfforaethol a chyfathrebu mewn pryd ar gyfer sefydlu'r Comisiwn.

Rwy’n rhagweld y byddaf yn gallu rhoi darlun llawnach o'r cynllun gweithredu ar gyfer y Bil yn ystod Cyfnod 2 o waith craffu'r Bil.

Chweched dosbarth

Yn olaf, rwy'n ymwybodol bod rhanddeiliaid wedi codi pryderon ynghylch defnyddio'r gair "rhesymoli" yn y diwygiadau i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Deddf 2013) fel y darperir ar eu cyfer gan baragraff 26 o Atodlen 4 i'r Bil.

Hoffwn ailadrodd na fwriedir i "resymoli" awgrymu cau neu leihau. Yn hytrach, bwriedir iddo awgrymu dod â gwell trefn i bethau, gan sicrhau bod darpariaeth chweched dosbarth yn synhwyrol ac yn gydlynol. Mae'r term yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn Neddf 2013 (a chyn hynny yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998).

Nid yw'r pwerau hyn i'r Comisiwn yn disodli pwerau awdurdodau lleol, a fydd yn parhau i gyflwyno cynigion.

Mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar ddrafft o’r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar drefniadaeth ysgolion yn parhau, a rhaid i'r Comisiwn weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol yn y Cod wrth arfer y swyddogaethau hyn a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol ynddo.

Mae'r diwygiadau'n dileu'r gofyniad awtomatig i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Yn hytrach, pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu cymeradwyo, gwrthod neu weithredu cynigion o'r fath a bod gwrthwynebiad i'r cynigion hynny, bydd gan y Comisiwn y pŵer i gyfeirio'r cynigion at Weinidogion Cymru i benderfynu arnynt.

Mae'r diwygiadau hefyd yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi pwerau cyfatebol i'r Comisiwn (pennod 3A newydd o Ran 3 ar drefniadaeth ysgolion).

Mae'r pwerau hynny'n golygu bod y Comisiwn yn gallu, o dan rai amgylchiadau ac yn unol â'r Cod, cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i gyflwyno cynigion ar gyfer addysg chweched dosbarth mewn ysgol a gynhelir. Bydd gan y Comisiwn bŵer i wneud ei gynigion ei hun yn dilyn cyfarwyddyd ganddo os yw’r amser a ganiatawyd i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu wneud cynigion wedi dirwyn i ben neu eu bod wedi cyhoeddi cynigion. Os bydd gwrthwynebiadau i gynigion gan y Comisiwn, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y mater.

Hoffwn unwaith eto fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch eto i'r Pwyllgor am eu mewnbwn gwerthfawr i'r Bil.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language